



# Syniadau I Senedd

25/3/19





## Cyllido Hirdymor ar gyfer Chwaraeon

Cyllido ar gyfer Chwaraeon, Cynllun 10 Mlynedd.

Manylion:

Adnewyddu Cyfleusterau Chwaraeon ar gyfer ein Myfyrwyr  
- cynllun dwy i ddeng mlynedd

Mae'r polisi hwn ar gyfer y pethau y tu allan i'ch gradd. Fy safbwynt i yw eich bod chi yma i gwblhau eich gradd; mae gennych chi lyfrgell 24 awr wych, a Llyfrgell Genedlaethol Cymru sydd ond 5 munud i ffwrdd o'r campws.

Rwy'n credu'n bersonol ein bod yn rhagorol ar yr ochr academiaidd. Dyna pam rydyn ni wedi ennill gwobr Ansawdd Addysgu Academiaidd 2 flynedd yn olynol.

Felly, mae'r polisi hwn yn ymwneud â chynllunio hirdymor a gofyn i'r brifysgol fuddsoddi mewn chwaraeon ar gyfer y dyfodol. Mae lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon wedi cynyddu, oherwydd bod aelodaeth o'r gampfa am ddim i'r rhai sy'n aros mewn Neuaddau Preswyl. Serch hynny, hyn wedi tynnu sylw at y ffaith nad yw'r cyfleusterau chwaraeon yn ddigonol ar gyfer cymaint o ddefnydd â hyn. Mae'n wych gweld y cynnydd hwn wrth i fwy o fyfyrwyr fynd ati i ddefnyddio cyfleusterau'r Brifysgol i wneud ymarfer corff, ond mae hyn wedi amlygu'r broblem bod angen cyfleusterau chwaraeon cymunedol gwell arnom.

Fel Undeb Myfyrwyr, credaf y dylai fod gennym safiad penodol i lobio'r brifysgol i ymrwymo arian o'i chyllidebau i adnewyddu ei chyfleusterau chwaraeon cymunedol. Gall yr arian yma ddod o unrhyw le, nid dim ond o gronfeydd y brifysgol. Dylai'r brifysgol fod yn gweithio ar y cyd â Chyngor Sir Ceredigion i helpu i dyfu chwaraeon yn y gymuned a'r ardal leol.

Yn y bôn, y broblem yw nad oes gennym gyfleusterau chwaraeon digonol i'n holl fyfyrwyr eu defnyddio.

Os yw'r polisi hwn yn pasio,

- Hoffwn orchymyn pob un o'r swyddogion llawn-amser i lobio am well cyfleusterau chwaraeon er mwyn parhad hirdymor chwaraeon yn y brifysgol hon.
- Sicrhau bod Pwyllgor Gwaith y Brifysgol a Chyngor y Brifysgol yn mynd ati i wella cyfleusterau chwaraeon erbyn 2020, ac yn ail-fuddsoddi'n gyson dros y 10 mlynedd nesaf unwaith y bydd y brifysgol mewn gwell sefyllfa ariannol.
- Gwella cyfleusterau cymunedol fel y gallwn ymgysylltu â chymunedau lleol i gyfranogi mewn chwaraeon yng Ngheredigion a helpu i wella'r berthynas rhwng myfyrwyr a'r bobl leol.
- Tîm Swyddogion llawn-amser Undeb y Myfyrwyr i gynhyrchu adroddiad am y blaenoriaethau maen nhw am eu gweld ar gyfer eu cyfleusterau chwaraeon a bwydo hyn yn ôl i adran Ystadau'r Brifysgol.

Ynghlwm mae crynodeb o'r ymatebion a gafwyd gan y 284 o bobl a lenwodd y Ffurflen Google a anfonais allan dros y penwythnos trwy gyfryngau cymdeithasol, yn bersonol.

Uchafbwyntiau -

"Chwaraeon yw sail llwyddiant yn fy marn i.

Cyfleusterau gwell = safon uwch o bobl yn dod i'r brifysgol.

Safon uwch = canlyniadau prifysgol uwch.

Canlyniadau uwch = Mwy o gydnabyddiaeth i'r brifysgol.

Mwy o gydnabyddiaeth = Safle uwch mewn tablau cynghrair.

Safle uwch mewn tablau cynghrair = Gwell canlyniadau academiaidd yn gyffredinol.

Ac mae'r broses yn ailadrodd ei hun.

Nid yw'n gyd-ddigwyddiad mai'r prifysgolion sydd ar frig y tablau cynghrair yw'r rhai sydd â'r canlyniadau academiaidd uchaf a'r rhai sydd hefyd ar frig cynghreiriaau BUCS.

Dylai annog chwaraeon ar y lefel uchaf fod yn rhywbeth y mae'r Brifysgol yn ymfalchïo ynddo; ar hyn o bryd i lawer (myfyrwyr, modiwlau, cyrsiau a darlithwyr) mae'n ymddangos fel anghyfleustra. "

Cyflawnwyd gan: Bruce Wight





## **Hyfforddiant Cydsyniad Gorfodol**

Dylid darparu hyfforddiant cydsyniad gorfodol i fyfyrwyr Aberystwyth

Manylion:

Mae llawer o fyfyrwyr prifysgol yn wynebu sefyllfaoedd sy'n gymhleth. Ymhlith y rhai sy'n peri'r problemau mwyaf mae'r rheiny sy'n digwydd pan fo sefyllfaoedd yn troi'n rhywiol. Mae'n syndod i mi nad oes gennym ni eisoes hyfforddiant cydsyniad gorfodol i fyfyrwyr. Byddai addysgu myfyrwyr ynghylch beth yw cydsyniad a sut i'w gael / rhoi yn helpu i egluro llawer o sefyllfaoedd i fyfyrwyr. Byddai'n helpu myfyrwyr i fod yn fwy cyfforddus ac mae rhaglenni ar-lein eisoes wedi'u hanelu at fyfyrwyr.

Cyflawnwyd gan: Bethan Phillips





## Gadael UCM

Mae angen i Undeb Myfyrwyr Aberystwyth adael UCM  
Manylion:

Ar hyn o bryd mae Undeb Myfyrwyr Aberystwyth yn aelod o Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (UCM). Mae UCM, fodd bynnag, ar fin mynd yn fethdalwr. Mae ganddynt, yn ôl eu hadroddiadau ariannol eu hunain, ddyledion o £700,000 ac erbyn diwedd 2019 bydd ganddynt ddiffyg cyllidol o £3,000,000. Meddai Is-Lywydd Cymdeithas a Dinasyddiaeth UCM, Zamzam Ibrahim: "hon fydd y gynhadledd genedlaethol gyntaf mewn cof na all roi sicrwydd y bydd cynhadledd genedlaethol y flwyddyn nesaf, na all hyd yn oed roi sicrwydd y bydd Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr y flwyddyn nesaf."

Roedd cynhadledd 2018 yn anhrefn llwyr, a chyflawnwyd bron ddim. Cerddodd pob un ond un o gynrychiolwyr Prifysgolion Cymru allan o'r gynhadledd oherwydd ei bod yn gymaint o lanast. Nid yw'r mudiad hwn bellach yn cynrychioli Myfyrwyr Aberystwyth ac yn sicr nid yw'n cyflwyno materion myfyrwyr Aberystwyth i unrhyw fath o lywodraeth.

Mae ein UM yn talu arian tuag at y sefydliad methodig hwn, arian y gellid ei ddefnyddio yn ein UM. Hyd yn oed os bydd UM Aber yn cael arian gan UCM, mae'r risg o fethiant UCM yn llawer rhy uchel. Mae eu cwmp yn anochel. Ar wahân i hynny, prin mae UCM yn malio am Aberystwyth na'i myfyrwyr. Yr unig adeg y byddwn yn rhyngweithio â nhw yw pan fydd cyn-fyfyriwr sydd wedi diflasu yn gwrthio iPad yn ein hwynebaw yn ystod cyfnod y Glas.

Nid yw'r llywodraeth yn talu sylw i UCM chwaith. Sut allwn ni gael ein cynrychioli'n iawn fel myfyrwyr pan fo'r undeb sydd gennym yn peri i bobl chwerthin pan soniwch am ei enw? Mae myfyrwyr Aberystwyth yn haeddu cynrychiolaeth briodol, uchel ei pharch. Mae llunwyr polisi ledled y wlad yn parchu Llywydd presennol ein UM, a byddai'n amlwg yn gynrychiolydd gwell ar gyfer Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth ac Undeb y Myfyrwyr. Ar y llaw arall, does gan Lywydd UCM ond y dylanwad i gwrdd â llunwyr polisi dibwys y gwrthbleidiau. Mae hynny'n rhywbeth y byddem yn ei ddisgwyl gan Lywydd Chweched Dosbarth / Ysgol / Coleg, nid prif gynrychiolydd myfyrwyr.

Yr unig amser a welwn ni UCM yw'r cardiau disgownt. Y peth gorau, fodd bynnag, yw na fydd gadael UCM yn effeithio ar eich cerdyn disgownt UCM, oherwydd ei fod wedi'i gofrestru i chi fel unigolyn. Ar ôl gadael, bydd Aberystwyth yn rhydd o hualau ariannol UCM ond bydd gennych eich cerdyn UCM o hyd.

Y ffordd i ddatrys y broblem hon yw gadael UCM. Drwy adael UCM byddwn yn rhoi Aberystwyth yn ôl ar y map drwy bellhau oddi wrth yr enw drwg sydd gan UCM. Byddwn hefyd yn atal unrhyw broblemau ariannol pellach rhag effeithio ar ein UM o bosibl - pwy a wŷr beth fydd yn digwydd ynglŷn â dyledion UCM.

Cyflawnwyd gan: Edward Frith

